Llyfrgell Ganolog Abertawe
Polisi Defnyddio'r Ystafell Ddarganfod

Ystafell ddigwyddiadau ar lawr cyntaf Llyfrgell Ganolog Abertawe yw'r Ystafell Ddarganfod. Mae'n 62 metr sgwâr, mae ganddi le i hyd at 30 o bobl eistedd, 8 bwrdd sy'n plygu, 12 o gyfrifiaduron personol mynediad cyhoeddus â mynediad am ddim i'r rhyngrwyd, argraffydd, WiFi a bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Gall Llyfrgell Ganolog Abertawe roi mynediad i liniadur a'r ceblau angenrheidiol i'w gysylltu â'r bwrdd gwyn rhyngweithiol, sy'n gweithredu fel taflunydd.

Mae gan Lyfrgell Ganolog Abertawe rwydwaith diwifr mynediad cyhoeddus i aelodau'r llyfrgell. Gallwch gael mynediad at hwn drwy ddefnyddio'ch dyfais ddiwifr neu'ch gliniadur diwifr a rhif eich cerdyn llyfrgell. Os nad ydych chi'n aelod o'r llyfrgell neu os nad ydych chi'n gwybod eich manylion, ewch i weld aelod o staff wrth y ddesg gwasanaethau cwsmeriaid.

Pwrpas y polisi hwn

Pwrpas y polisi hwn yw disgrifio'r defnydd a ganiateir ac amodau defnydd ar gyfer yr Ystafell Ddarganfod yn y Llyfrgell Ganolog. Mae hefyd yn disgrifio'r prosesau ar gyfer trefnu a rheoli archebion.

Gall y polisi hwn fod yn destun newid yn dilyn adolygiad rheolaidd neu er mwyn parhau'n gyson gyda pholisïau sy'n berthnasol i'r cyngor lle bo angen.

Defnydd a ganiateir

Mae cynllun gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael yn https://swan.ent.sirsidynix.net.uk/client/en_GB/search/asset/222/0, sy'n disgrifio bwriad y gwasanaeth llyfrgelloedd ac sy'n nodi addasrwydd y gweithgareddau y gellir eu cynnal mewn llyfrgelloedd.

Mae Llyfrgelloedd Abertawe'n cadw'r hawl i wrthod ceisiadau i ddefnyddio'r ystafelloedd cyfarfod neu leoedd cyhoeddus pan fo'n briodol.

Nid yw'r Ystafell Ddarganfod ar gael am unrhyw weithredoedd crefyddol, ymgyrchu gwleidyddol neu ddigwyddiadau codi arian nad ydynt wedi'u trefnu gan staff y llyfrgell.

Nid yw'r Ystafell Ddarganfod ar gael ar gyfer cyfarfodydd preifat.

Ni chaniateir unrhyw weithgaredd masnachol gan gynnwys gwerthu nwyddau neu wasanaethau (ac eithrio gwerthiannau stoc y llyfrgell a dynnwyd yn ôl) na hyrwyddo nwyddau neu wasanaethau i gwsmeriaid y llyfrgell.

25/10/2019

Ni ddylai unrhyw ddigwyddiadau neu weithgareddau a gynhelir yn yr Ystafell Ddarganfod ymyrryd â gweithrediad arferol y llyfrgell.

Gall tâl o £10 yr awr fod yn berthnasol os bydd sefydliadau neu unigolion allanol yn cyflwyno cais i ddefnyddio lle yn y llyfrgell at ddibenion addysgol y telir amdanynt, a gellir codi tâl o £20 yr awr i sefydliadau masnachol neu sefydliadau eraill (at ddibenion na nodwyd uchod fel gweithgareddau masnachol a gwaherddir). Holwch am ragor o wybodaeth.

Cadw lle

Nid ydym yn cadw lleoedd mwy na 6 mis ymlaen llaw ar gyfer cyfnodau mis Ebrill i fis Medi a mis Hydref i fis Mawrth yn ystod unrhyw flwyddyn.

E-bostiwch ystafell.ddarganfod@abertawe.gov.uk gydag unrhyw ymholiadau ynghylch cadw lle.

Rhaid cadw lle o leiaf 1 wythnos ymlaen llaw, a chaiff hwn ei gadarnhau pan fyddwn yn dychwelyd copi o'r Ffurflen Cadarnhau Cadw Lle wedi'i llofnodi (gweler Atodiad 1).

Ni allwn warantu y bydd yr amser y mae ei angen arnoch neu a ffefrir gennych ar gael ac ni fydd cadw lle yn y gorffennol yn gwarantu y derbynnir ceisiadau yn y dyfodol.

Amodau Defnydd

Iechyd a Diogelwch

Dylid cadw'r mynedfeydd a'r llwybrau mynediad yn glir o rwystrau ar bob adeg.

Bydd staff y llyfrgell yn trefnu'r byrddau a'r cadeiriau ac yn gosod unrhyw offer y gofynnir amdanynt pan fyddwch yn cyflwyno cais.

Mae trefnwyr y sesiynau'n gyfrifol am unrhyw asesiadau risg angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau sy'n digwydd yn yr ystafell.

Gofynnir i arweinwyr y cwrs/grŵp sicrhau bod yr holl fynychwyr yn ymwybodol na chaniateir smygu na defnyddio e-sigarennau ar safle'r llyfrgell. Dylent hefyd roi gwybod i fynychwyr ynghylch lleoliad y toiledau a'r allanfeydd tân (yn ôl yr wybodaeth a ddangosir yn yr ystafell). Gofynnir hefyd bod arweinydd y cwrs yn rhoi gwybod i staff y llyfrgell am unrhyw fynychwyr y mae angen cymorth gadael mewn argyfwng arnynt ar gyfer unrhyw sesiynau rheolaidd. Pan fydd larwm tân yn canu, bydd angen i bawb sy'n bresennol adael yr adeilad cyn gynted â phosib gan ddefnyddio'r llwybr agosaf er mwyn cyrraedd man ymgynnull dynodedig.

Ni ddylid newid unrhyw offer a ddarperir gan Lyfrgelloedd Abertawe, na chael gwared arno neu ymyrryd ag ef.

Dylai'r holl gyfarpar trydanol personol a ddefnyddir yn yr Ystafell Ddarganfod fod yn gweithio'n dda. Nid yw Llyfrgelloedd Abertawe na Chyngor Abertawe'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddifrod a achosir i gyfarpar trydanol wrth ddefnyddio socedi pŵer yn yr Ystafell Ddarganfod nac yn y llyfrgell.

Cyffredinol

Cadwch at yr amser rydych wedi cadw lle ar ei gyfer. Bydd yr ystafell ar gael 10 munud cyn eich amser er mwyn ei pharatoi; bydd staff y llyfrgell hefyd yn defnyddio'r amser hwn i newid trefn y celfi os bydd angen. Rhaid gadael yr Ystafell Ddarganfod o fewn 5 munud o ddiwedd eich amser dyranedig. Rhowch ddigon o amser i'ch gwesteion adael a thynnu'r holl ddeunyddiau a chyfarpar.

Cyfrifoldeb y trefnwr yw sicrhau cyhoeddusrwydd a bydd angen i unrhyw ddeunydd y bwriedir ei arddangos neu ei ddosbarthu gydymffurfio â Pholisi Arddangos Llyfrgelloedd Abertawe (gweler Atodiad 2).

Codir tâl am unrhyw eitemau a argreffir ar yr un gyfradd ag a godir ar gwsmeriaid holl lyfrgelloedd Abertawe.

Caniateir bwyd a diod yn yr Ystafell Ddarganfod, er y dylech osgoi bwyta ac yfed wrth ddefnyddio'r cyfrifiaduron neu'r bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Rhaid clirio'r holl weddillion arlwyo o'r Ystafell Ddarganfod o fewn 5 munud o ddiwedd eich amser gan adael digon o amser dyranedig er mwyn cyflawni hyn.

Nid yw'n bosib storio eitemau sy'n perthyn i grwpiau eraill yn y llyfrgell. Ni allwn gymryd cyfrifoldeb am eitemau a adewir yn ein llyfrgell.

Ymwadiadau ac Indemniad

Bydd y llogwr yn atebol am unrhyw ddifrod i'r lleoliad gan gynnwys y gosodion, y ffitiadau, y celfi ac unrhyw gyfarpar neu eitemau a ddarperir yn yr ystafelloedd ac a achosir gan ei ddefnydd o'r safle. Bydd y gost o adfer y lleoliad, y gosodion, y ffitiadau, y celfi ac unrhyw gyfarpar neu eitemau a ddarperir yn yr ystafelloedd i'w cyflwr gwreiddiol yn cael ei hasesu gan y cyngor a bydd ei benderfyniad yn derfynol. Ni chaniateir rhoi sgriwiau neu hoelion yn y waliau, y lloriau na'r nenfydau yn y lleoliad, gosodion a ffitiadau. Bydd y llogwr yn gadael y lleoliad mewn modd glân a thaclus. Bydd y llogwr yn talu am gostau atgyweirio neu ddisodli os ceir difrod.

Ni fydd y cyngor na'i weision na'i asiantiaid yn atebol am unrhyw ddifrod neu golled o nwyddau, eiddo neu gyfarpar nac am anaf personol (heblaw yn achos esgeulustod gan y cyngor) ar safle neu dir y cyngor, ni waeth beth oedd yr achos. Bydd y llogwr yn indemnio'r cyngor, ei weision neu ei asiantiaid yn erbyn unrhyw hawliadau, a allai gael eu gwneud mewn perthynas â nhw. Rhaid adrodd am unrhyw ddamwain i'r cyngor cyn gynted â phosib ar ôl iddi ddigwydd, a chyn gadael y safle ym mhob achos.

Dylai'r llogwr sicrhau bod ganddo yswiriant atebolrwydd cyhoeddus priodol gwerth o leiaf pum miliwn o bunnoedd (£5,000,000). Dylai sefydliadau nad oes ganddynt y lefel hon o yswiriant e-bostio ystafell.ddarganfod@abertawe.gov.uk i drafod unrhyw drefniadau posib eraill ar gyfer asesu risg. Ni fydd y llogwr yn gwneud unrhyw beth, nac yn caniatáu i unigolyn arall wneud unrhyw beth nad yw'n cael ei gynnwys yn ei bolisi neu ei bolisïau yswiriant ym marn y cyngor, mewn perthynas â defnyddio'r safle neu a fydd yn achosi i unrhyw bremiwm uwch neu ychwanegol gael ei dalu, heb ganiatâd ysgrifenedig y cyngor. Gellir gorfodi amodau ychwanegol os bydd angen gan yswirwyr y cyngor mewn perthynas â risgiau ychwanegol.

Mae angen i ddefnyddwyr fod yn ymwybodol o unrhyw ffïoedd ar gyfer hawliau perfformio, trwyddedau neu ganiatâd hawlfraint sy'n gysylltiedig â defnyddio'r ystafell, a bod yn gyfrifol am eu talu.

Nid yw Llyfrgelloedd Abertawe'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gymwysterau na safonau ansawdd unrhyw ddigwyddiad a gynhelir gan asiantaethau allanol.

Canslo

Os nad oes angen i chi ddefnyddio'r Ystafell Ddarganfod mwyach, dylech ganslo'ch trefniad cyn gynted â phosib.

E-bostiwch ystafell.ddarganfod@abertawe.gov.uk i ganslo lle, neu ffoniwch staff y Llyfrgell Ganolog ar 01792 636464 os bydd angen canslo ar fyr rybudd. Byddwn yn cadarnhau eich bod wedi canslo drwy e-bost neu'n ysgrifenedig.

Mae Llyfrgelloedd Abertawe'n cadw'r hawl i ganslo eich trefniad unrhyw bryd. Rhoddir cymaint â phosib o rybudd ymlaen llaw a chynigir dyddiadau neu amserau eraill lle bo'n bosib; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, efallai na fydd hyn yn bosib. Ni fydd y cyngor yn atebol am unrhyw golled a gafwyd gan y llogwr o ganlyniad i unrhyw ganslo o'r fath.

Cwynion

Mae Llyfrgelloedd Abertawe'n bwriadu darparu gwasanaethau o safon i'r cyhoedd yn Ninas a Sir Abertawe. Fodd bynnag, bydd pethau'n mynd o'i le ar adegau ac efallai y bydd defnyddiwr gwasanaeth am gyflwyno cwyn.

Trwy ddweud wrthym yr hyn rydych chi'n anhapus amdano neu'r hyn a aeth yn dda, byddwch yn ein helpu i wella'r ffordd rydym yn cyflwyno gwasanaethau.

Ymdrinnir â phob cwyn yn unol â pholisi cwynion corfforaethol y cyngor - rhagor o wybodaeth yn www.abertawe.gov.uk/canmoliaethachwynion

Cyngor Abertawe
Swansea Council

25/10/2019

Atodiad 1
Llyfrgell Ganolog Abertawe
Ystafell Ddarganfod Cadarnhad o'r Trefniad

Gwiriwch y manylion isod.

Enw'r sefydliad	
Teitl y cwrs neu'r digwyddiad	
Disgrifiad o'r cwrs neu'r digwyddiad	
Dyddiadau'r sesiwn	
Cyfanswm nifer y sesiynau	
Dyddiadau unrhyw egwyliau	
Amser dechrau	
Amser gorffen	
Trefn yr ystafell	
Enw'r tiwtor/trefnydd	
Manylion cyswllt eich tiwtor/trefnydd	
Cadarnhaf fod y manylion uchod yn gywir a chytunaf i gadw at y telerau a nodir ym Mholisi Defnyddio'r Ystafell Ddarganfod Llofnod..... Dyddiad..... Swydd…… . Sefydliad	

Cyngor Abertawe yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol rydych chi'n ei darparu ar y ffurflen hon. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio er mwyn i ni ddarparu'r gwasanaeth rydych wedi cyflwyno cais amdano ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti heb eich caniatâd pendant oni bai fod y gyfraith yn gofyn neu'n caniatáu i ni wneud hynny.

Mae cyfraith yn ôl yr angen er mwyn diogelu data'n disgrifio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data yn ôl yr angen er mwyn cyflawni contract. Am fwy o wybodaeth am sut mae Cyngor Abertawe'n defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein hysbysiad preifatrwydd corfforaethol ar ein gwefan https://www.abertawe.gov.uk/hysbysiadpreifatrwydd

25/10/2019

Atodiad 2
Llyfrgelloedd Abertawe
Arweiniad Polisi parthed Hysbysiadau mewn Llyfrgelloedd

Hysbysiadau cymunedol derbyniol (Adran 2.1.2)

Efallai bydd gan lyfrgelloedd mwy ddigon o le ar gyfer y categorïau canlynol:

- Cyfarfodydd cyhoeddus lleol
- Hysbysiadau Cynghorau Cymuned/Tref a Chyngor Abertawe - gan gynnwys gwybodaeth am fanylion cyswllt/cymorthfeydd cynrychiolwyr gwleidyddol lleol, cynghorwyr Abertawe, cynghorwyr cymuned/tref, Aelodau Cynulliad Cymru, Aelodau Seneddol ac Aelodau Senedd Ewrop.
- Hysbysiadau sy'n hysbysebu cyrsiau addysg byr (e.e. dosbarthiadau, darlithoedd), ni waeth a yw'r rhain yn cael eu darparu gan sefydliadau sy'n gwneud elw ai peidio.
- Digwyddiadau a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn Abertawe (e.e. theatr, cerddoriaeth, celf, crefft), ni waeth beth yw natur y sefydliad ac a yw'n gwneud elw ai peidio.
- Digwyddiadau a gweithgareddau hamdden, cymdeithasol neu chwaraeon lleol (e.e. clybiau, cadw'n heini, dosbarthiadau dawns), ni waeth a yw'r rhain yn gwneud elw ai peidio.
- Digwyddiadau lleol untro eraill.
- Cylch chwarae, grŵp plant bach a dosbarthiadau meithrin, ni waeth a yw'r rhain yn cael eu darparu gan sefydliadau sy'n gwneud elw ai peidio.
- Gwasanaethau cwnsela, cynghori a gwybodaeth (e.e. Cyngor Ar Bopeth, llinell gymorth AIDS, Alcoholigion Anhysbys, Y Samariaid)
- Hysbysiadau gwybodaeth eraill nad ydynt yn cale eu cynnwys yn y categorïau uchod, am atyniadau i ymwelwyr neu ganddynt, awdurdodau iechyd, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Llywodraeth Ganolog a chyrff statudol a gwirfoddol lleol a chenedlaethol (e.e. elusennau)

Hysbysiadau annerbyniol (Adran 2.1.3)

- Mae datganiadau neu ymgyrchoedd gwleidyddol, crefyddol neu athronyddol e.e. 'Yn erbyn TAW ar danwydd' yn annerbyniol, ond mae 'Tueddiad Milwriaethus Ystumllwynarth: cyfarfod cyhoeddus am TAW ar danwydd'' yn dderbyniol.
- Deisebau o unrhyw fath
- Apeliadau am gyllid neu nawdd o unrhyw fath e.e. ar gyfer elusennau, pleidiau gwleidyddol, sefydliadau ymgyrchu a sefydliadau crefyddol. Byddai hysbysiad sy'n hysbysebu ffair a gynhelir gan blaid wleidyddol neu'r eglwys yn dderbyniol, ond nid hysbysiad sy'n gofyn am arian.
- Hysbysebion sy'n gwerthu eitemau unigol, neu'n gwerthu nwyddau a gwasanaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn adran 2.1.2. Mae ein gwerthiannau llyfrau ein hunain yn eithriadau.
- Ni chaniateir hysbysebu gwasanaethau masnachol (heblaw am y rhai a restrir yn adran 2.1.2).